

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

12 HYDREF 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd T.M. Higgins (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: A.G. Morgan, K.V. Broom, K. Davies, G.H. John, B. Thomas a D.E. Williams.

Aelod Pleidleisio Allanol: J. James

Yn bresennol fel sylwedydd:

Y Cyngorydd D.M. Jenkins – Yr Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau

Yn bresennol o Archwilio Cymru:

J. Garcia, N. Jenkins, A. Worthy a A. Lewis.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;

H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael;

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;

C. Powell, Prif Archwilydd;

A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cynorthwyo];

R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau [Weddarlledu];

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cynorthwyo];

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion];

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Sylwedydd].

Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 12:47yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd B.A.L. Roberts.

Yn y fan hon mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, gydymdeimlad diffuant â'r Cyngorydd Roberts yn dilyn marwolaeth ei gŵr.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
T. Higgins	3 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 3.1 - 3.4)	Mae'n aelod o'r gronfa pensiwn
K. Broom	3 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 3.1 - 3.4)	Mae'n aelod o'r gronfa pensiwn
K. Davies	3 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 3.1 - 3.4)	Mae'n aelod o'r gronfa pensiwn
G. John	3 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 3.1 - 3.4)	Mae'n aelod o'r gronfa pensiwn

E. Williams	3 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 3.1 - 3.4)	Mae'n aelod o'r gronfa bensiwn Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed
-------------	--	--

3. DATGANIAD O GYFRIFON Y CRONFA BENSIWN DYFED

(NODER: Roedd y Cynghorwyr T. Higgins, K. Broom, K. Davies, G. John ac E. Williams wedi datgan diddordeb yn gynharach yn yr eitemau canlynol 3.1 – 3.4.]

3.1. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL Y CRONFA BENSIWN DYFED

Cafodd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru ar yr archwiliad a gynhaliwyd o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2021 a'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a fyddai'n cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y deuai'r Llythyr Sylwadau i law. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

3.2. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH I ARCHWILIO CYMRU CRONFA BENSIWN DYFED

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod yn ofynnol gan Archwilio Cymru, yn unol â'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS440 - Sylwadau Rheolwyr), fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn llunio Llythyr Sylwadau yn flynyddol, a bod y llythyr hwn yn cael ei lofnodi gan y Swyddog hwnnw a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Ar ben hyn, roedd yn ofynnol gan Archwilio Cymru fod y Pwyllgor a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon o dan Reoliad 8 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn cydnabod yr ymateb yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio i Archwilio Cymru mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei gydnabod.

3.3. YMHOLIADAU ARCHWILIO AR GYFER Y RHEINY SYDD YN GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Derbyniodd y Pwyllgor ymatebion yr Awdurdod i Archwilio Cymru ar nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar archwiliad y datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hynny hefyd yn berthnasol i reolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (Pwyllgor Archwilio).

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth Archwilio Cymru o brosesau busnes Cronfa Bensiwn Dyfed gan gefnogi ei waith i ddarparu barn archwilio ar gyfer datganiadau ariannol 2020-21.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a wnaed i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio fel y manylir yn yr adroddiad.

3.4. ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN DYFED 2020-2021

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2020-21, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cymeradwyo.

Rhodddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at gofnod presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor. Mynegwyd pryder mewn perthynas ag Aelodaeth gyfyngedig Pwyllgor Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed a gwnaed sylw bod un o'i aelodau wedi bod yn absennol am sawl cyfarfod. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, drwy alw ar y dirprwy enwebedig, fod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed wedi gallu parhau i gynnal ei fusnes yn ôl yr arfer. Esboniwyd bod angen cael dirprwy enwebedig er mwyn sicrhau bod lefel gyson o wybodaeth am y pwnc yn cael ei chynnal. Cyflawnwyd hyn drwy hyfforddiant rheolaidd yn unol â'r cynllun hyfforddi. Hefyd, rhodddwyd sicrwydd bod y Cynghorydd bellach wedi dychwelyd at ei ddyletswyddau arferol yn dilyn cyfnod o salwch.
- Wrth gydnabod bod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn heriol, cydnabu'r Aelodau, er gwaethaf hyn, ei bod yn braf nodi bod y Gronfa wedi sicrhau enillion llwyddiannus.
- Gofynnwyd am eglurder ynghylch y cyfeiriad at 'ymadawr heb benderfynu' yn adran 'Aelodaeth o'r Cynllun' yr adroddiad. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y term yn cyfeirio at unigolyn a oedd wedi gadael ei gyflogaeth ac yn aros i gael ei brosesu.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch eiddo masnachol, eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y maes hwnnw yn cael ei fonitro'n ofalus. Yn ogystal, nodwyd na wnaed buddsoddiad helaeth yng nghanol trefi yn gysylltiedig â'r pandemig, ac o ganlyniad nid oedd yr effaith wedi bod yn sylweddol.

Er mwyn rhoi eglurder pellach mewn perthynas ag eiddo masnachol, ychwanegodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod rheolwyr eiddo yn arallgyfeirio eu buddsoddiadau ar draws y portffolio cyfan mewn dull cytbwys gan fynd ati'n rhagweithiol i adolygu'r ganran a ddyrennir i bob sector ar wahân.

- Mewn ymateb i ymholiad a wnaed ynghylch amserlen yr achosion sydd wedi/heb eu cwblhau fel y nodwyd yn yr adroddiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y rhoddwyd gwybod i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed am sefyllfa'r achosion a oedd yn rhoi hyder gan fod nifer yr achosion sy'n cael eu prosesu yn dderbyniol.
- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn fodlon â'r gyfradd dadfuddsoddi hyd yma ac esboniodd fod gan aelodau Pwyllgor Pensiwn Dyfed a Swyddogion ddyletswydd rhagfarnol a chyfrifoldeb i sicrhau bod pensiynau ar gael i aelodau adeg ymddeol. Er bod y symudiad o ran dadfuddsoddi yn gytbwys ac yn cael ei wneud ar gyflymder derbyniol, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'n anodd dadfuddsoddi heb gefnogaeth a chydweithrediad Rheolwyr Buddsoddi. Yn ogystal, dywedwyd bod Rheolwyr Buddsoddi wrthi'n paratoi i fynd ar drywydd cronfeydd a oedd ag ôl troed di-garbon neu garbon isel, a ddaeth yn fater cymhleth i'w reoli o ran o ran cronfeydd cyfun.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2020-21.

4. ARCHWILIO CYMRU - ADOLYGIAD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN:-

4.1. ADRODDIAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol a gyflwynwyd gan Mr Jason Garcia. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2020/21. Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad thematig o Gynaliadwyedd Ariannol Cymru gyfan o ran Awdurdodau Lleol ac wedi cynnal asesiad gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i Gynghorau gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at Adolygiad Thematig Cymru Gyfan. O ran y sefyllfa a chynghorau eraill, gofynnwyd a oedd yr adroddiad ar gael i'w weld. Argymhellodd Mr Garcia y dylai Aelodau'r Pwyllgor weld yr adroddiad cenedlaethol a dywedodd hefyd, er mwyn cael rhagor o gyd-destun, y dylai Aelodau hefyd ystyried y 2 adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021; 1) Cynaliadwyedd Ariannol a 2) Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd mai'r casgliad cyffredinol oedd bod Cynghorau wedi derbyn cyllid ychwanegol sylweddol i allu delio â'r pandemig, ond nodwyd bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn parhau i fod yn her yn wyneb pwysau ariannol eraill.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n dosbarthu'r ddolen i Adolygiad Thematig Cymru Gyfan i'r Aelodau er gwybodaeth.

Yn ogystal, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau fod Swyddogion yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio gwneud oddeutu £5m o arbedion effeithlonrwydd y flwyddyn a oedd yn sicr yn mynd i fod yn her dros y 2 flynedd nesaf oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig.

- Gofynnwyd a fyddai cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i nodi'r arbedion a'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad a fyddai'n galluogi'r monitro angenrheidiol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r arbedion arfaethedig yn cael eu rhoi yn awtomatig ym mhroses y gyllideb a oedd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Yn ogystal, eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y strwythur llywodraethu mewn perthynas â'r gyllideb a'r broses monitro arbedion blynyddol i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru.

4.2. ADOLYGIAD O'R GWASANAETH GWASTRAFF, GORFFENNAF 2021

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adolygiad Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth Gwastraff a gyflwynwyd gan Mrs Alison Lewis. Diben yr archwiliad oedd adolygu a oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gynllunio a darparu ei wasanaethau gwastraff yn gynaliadwy. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau a ddeilliodd o'r archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru o Wasanaethau Gwastraff yr Awdurdod.

Ynghlwm wrth yr adroddiad oedd cynllun gweithredu drafft a oedd yn anelu at fynd i'r afael â'r 8 prif argymhellion o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynllun gweithredu drafft a oedd wedi'i nodi wrth baratoi i'w gyflwyno'n ffurfiol i Archwilio Cymru.

Rhodddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- O ran y pryder parhaus ynghylch tipio anghyfreithlon, dywedwyd bod pryder ychwanegol ynghylch tipio anghyfreithlon posibl oherwydd y newidiadau arfaethedig i wasanaethau casglu gwastraff yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at yr adran yn yr adroddiad sy'n nodi nad yw'r Cyngor yn adrodd ar nifer gwirioneddol y digwyddiadau tipio anghyfreithlon na'i berfformiad o'i gymharu â chynghorau eraill. Fodd bynnag, mynegwyd pryder bod Cynghorau yng Nghymru yn adrodd ar ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn wahanol ac felly nid oedd y ffigurau'n gyson nac yn adlewyrchiad teg o ddigwyddiadau. Awgrymwyd y dylid ychwanegu adroddiad ar gynnydd y cynllun gweithredu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor ymhen 6 – 12 mis.

Gan fod tipio anghyfreithlon yn fater cenedlaethol, gofynnwyd a ellid safoni'r gronfa ddata genedlaethol a ddefnyddir i gasglu a chofnodi digwyddiadau? Cyfeiriwyd at Arddangosyn 5: Digwyddiadau tipio anghyfreithlon fesul Awdurdod Lleol 2019-20 yn yr adroddiad, a oedd yn dangos bod tipio anghyfreithlon yn broblem genedlaethol. Nodwyd y gellid priodoli un o'r prif resymau i'r ffaith bod Sir Gaerfyrddin yn cofnodi ei holl ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y Sir, ond gall hyn fod yn wahanol i ddulliau cofnodi Cyngorau eraill. Yng ngoleuni hyn, dywedwyd nad yw'r wybodaeth a nodir yn y graff yn adlewyrchiad cywir o nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon o'i gymharu â'r 22 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a chwestiynwyd dilysrwydd y data a ddarparwyd. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd drwy CLILC, yn benodol ynghylch tipio anghyfreithlon. Esboniwyd nad oedd y mater wedi'i briodoli'n uniongyrchol i'r gronfa ddata ei hun ond ei fod wedi'i briodoli'n bennaf i anghysondeb o ran manylion sy'n cael eu cofnodi ar gyfer pob Cyngor.

- Er y cydnabuwyd bod tipio anghyfreithlon ar draws y Sir yn broblem sylweddol, dywedwyd ei bod yn braf cadarnhau bod Swyddogion a gweithredwyr yn rheoli'r gwaith o glirio gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon yn effeithlon.
- Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth Wastraff newydd, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'r strategaeth wastraff newydd, os caiff ei mabwysiadu gan y Cabinet, yn cael ei roi ar waith mewn dull 2 gam. Byddai'r cam cyntaf yn gam trosiannol i gasgliadau ailgylchu wythnosol o fagiâu glas (gyda chasgliadau bagiau du a gwydr bob tair wythnos) yn hydref 2022 a byddai'r ail gam yn galluogi'r gwaith o gyflwyno'r dull didoli wrth ymyl y ffordd yn llawn yng Ngwanwyn/Haf 2024.
- Er bod y cynllun gweithredu a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor i'w gymeradwyo yn mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru ar lefel uchel iawn, mynegwyd pryder nad oedd y cynllun yn cynnwys lefel y manylder sydd ei hangen i ddeall sut y byddai'r camau'n cael eu cymryd. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai cynllun gweithredu ehangach yn sylfaen i'r cynllun gweithredu hwn ac y byddai'n cael ei fonitro drwy'r system monitro perfformiad fewnol (PIMS) a'r cynlluniau busnes adrannol.
- Mewn ymateb i bryder ynglŷn â'r camau a ddangoswyd yn goch yn y cynllun gweithredu fel rhai nad oeddent wedi'u rhoi ar waith ac eraill a oedd ar y gweill (ambr), dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff, mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, mai dangosyddion cenedlaethol yn bennaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd y rhai a adroddwyd ar hyn o bryd a mesurwyd perfformiad yn unol â hynny. Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddangosyddion lleol ychwanegol. O ran datblygu'r strategaeth wastraff, esboniwyd na ellid symud ymlaen â hyn yn hyderus nes bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei pharodrwydd i gefnogi'r strategaeth yn ariannol.

Mae cytundeb mewn egwyddor o £14.6m o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru bellach wedi dod i law a byddai bellach yn galluogi'r strategaeth i gael ei datblygu ymhellach yn fanylach, ar ôl nodi'r egwyddorion ehangach. Hyd yma, roedd y Cyngor wedi gweithredu ei wasanaethau gwastraff heb hwylustod cymorth cyfalaf atodol ac felly heb gyllid Llywodraeth Cymru, ni fyddai gweithredu newid mor sylweddol, am gost fawr, i ddull didoli wrth ymyl y ffordd yn unol â'r dull "glasbrint" a ffefrir gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn bosibl. Yn ogystal, derbyniwyd y cytundeb cyllido mewn egwyddor ar ôl i'r archwiliad gael ei gynnal felly mae amseriad a statws eitemau cynllun gweithredu'r strategaeth yn cael eu dangos fel "ar y gweill".

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

4.2.1 derbyn yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff, Gorffennaf 2021;

4.2.2 cymeradwyo'r cynllun gweithredu drafft fel y'i nodir wrth baratoi i'w gyflwyno'n ffurfiol i Archwilio Cymru;

4.2.3 cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun gweithredu ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL 2020/21 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol y dylai'r teitl ar yr agenda ddarllen Cofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin **2021/22**.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol 2021/22 a oedd yn cael ei chadw er mwyn gwerthuso'r risgiau strategol allweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Nododd y Pwyllgor, yn dilyn ei ystyriaeth flaenorol, fod y cyfeirnod risg canlynol wedi'i dynnu o'r gofrestr:-

- CRR190047 - Y gallu i ddelio ag effeithiau cymdeithasol, economaidd a gweithredol COVID-19 ar yr Is-adran, yr Adran a'r Sir;
- CRR190059 - Cyrraedd targedau cyflawni cynllunio statudol

Yn ogystal â'r risg gwasanaeth canlynol sy'n gysylltiedig ag effaith cynllunio'r gweithlu a materion recriwtio yn gyffredinol, yn ogystal â meysydd recriwtio penodol, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a diffyg gofal cartref.

Rhodddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Dywedwyd bod y gofrestr risg a dderbyniwyd yn haws ei darllen a'i bod yn cynnwys mwy o fanylion a'i bod yn welliant ar fersiynau blaenorol o'r gofrestr.

- Cyfeiriwyd at risg CRR190006 – Sicrhau bod pobl yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth gydnabod bod llawer o aelodau o staff bellach yn gweithio gartref a'r pwyslais cryf ar lesiant staff, gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y broses arfarnu newydd. Esboniodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod y dull arfarnu newydd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar. Roedd y dull arfarnu newydd wedi'i drawsnewid i gefnogi dull mwy cadarnhaol drwy gynnwys naratif gwell ac annog sgwrs. Yn unol â'r cais, derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Rheoli Pobl yn Effeithiol ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor.
- Gan gyfeirio at yr heriau recriwtio a nodwyd, cydnabuwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn recriwtio'n annibynnol, a mynegwyd pryder y gallai fod yn cystadlu'n uniongyrchol â'r Cyngor. Eglurodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod y materion o fewn gofal cymdeithasol yn cael eu rheoli a'u monitro drwy ddarparu dau gyfarfod yr wythnos sy'n cynnwys cynrychiolaeth eang. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y cyfarfodydd yn rhan o'r strwythur Rheoli Aur gan roi'r cyfle i'r Cyngor weithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â materion recriwtio cyffredin. Yn ogystal, rhoddwyd sicrwydd bod yr hysbysebion ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal cartref yn cael eu hysbysebu'n barhaus.
- Cyfeiriwyd at risg CRR190006 – Darparu Trefniadau Diogelu Effeithiol – Plant. Mynegwyd pryderon cryf nad oedd y Panel Rhianta Corfforaethol wedi cyfarfod. Gofynnwyd pam yr oedd hyn yn wir, yn enwedig gan fod modd cael cyfarfod trwy ddulliau rhithwir. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law.
- Cyfeiriwyd at risg CRR190034 – Risg Seiber. Gofynnwyd pryd y profwyd y cynlluniau wrth gefn a pharhad ddiwethaf. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol y byddai'n trefnu bod y Pwyllgor yn cael naratif pellach ar y mater hwn drwy neges e-bost.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod y risg sy'n gysylltiedig â'r prinder presennol yn y gadwyn gyflenwi a'r ddarpariaeth wedi'i chofnodi ar y gofrestr risg, ond ni chafodd y cynnydd diweddar mewn methiannau pŵer a'r costau uwch eu cynnwys, a byddai hyn yn cael ei ystyried ar lefel rheoli corfforaethol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

5.1 Derbyn Cofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/22;

5.2 Cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Strategaeth Pobl Effeithiol ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

6. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH AR CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ynghylch gweithredu'r Cynllun Archwilio 2021/22.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad diweddarau'r Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22 yn cael ei dderbyn.

7. BLAENRHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer cylch cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio 2021/22, a nodai'r eitemau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd oedd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. COFNODION GRWP IAU PERTHNSAOL I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Mai, 2021.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YPWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 24 MEDI 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Medi 2021 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD